

2024/2025

Adroddiad y Cyfarwyddwr



Gwasanaethau
Cymdeithasol
Bro Morgannwg

Cyflwyniad

Fel Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bro Morgannwg, mae'n bleser gennyf gyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2024-25.

Unwaith eto, mae'r flwyddyn ddiwethaf hon wedi bod yn hynod heriol i'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae newidiadau mewn demograffeg yn parhau i gynyddu lefelau'r galw ym mhob maes. A hynny mewn cyd-destun o gyllid cyfyngedig a heriau staffio parhaus mewn rhai meysydd.

Rydym yn rhagweld y bydd yr heriau yn parhau ac felly nid yw'n bosibl i ni barhau fel o'r blaen. Rydym yn esblygu ac yn addasu ein hymatebion i'r amseroedd hyn sy'n newid yn gyflym ac yn ansicr.

Rydym yn rhoi cymorth i fwy o bobl nag erioed o'r blaen, yn llawer cyflymach nag erioed o'r blaen ac mewn ffyrdd sy'n rhoi mwy o reolaeth iddynt dros eu trefniadau. Byddai hyn oll wedi bod yn amhosibl ei gyflawni heb ymroddiad a gwytnwch ein staff. Trwy weithio gyda'n partneriaid, ein cymunedau a'n dinasyddion, rydym wedi gallu gwneud y defnydd gorau posibl o'n hymdrechion a helpu'r rhai sydd mewn angen. Mae arnom ddyled i bawb sydd angen ac yn defnyddio ein gwasanaethau i'w gwneud yn ymatebol ac ar gael iddynt mewn ffordd amserol.

Hoffwn ddiolch i'r holl aelodau o staff hynny a'n partneriaid am y rôl hanfodol y maent yn ei chwarae wrth roi gofal a chymorth o ansawdd uchel i ddinasyddion Bro Morgannwg. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o berfformiad gwasanaethau gofal cymdeithasol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n tynnu sylw at gyflawniadau, heriau a meysydd allweddol ar gyfer datblygu yn y dyfodol. Ein nod yw sicrhau gofal o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar y person sy'n diwallu anghenion ein cymuned.

Mae'r adroddiad mewn fformat newydd yn dilyn canllawiau wedi'u diweddarau gan Lywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad hefyd yn manylu ar y cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'r blaenoriaethau y dywedasom y byddem yn canolbwyntio arnynt dros y 12 mis diwethaf a gellir dod o hyd i'r rhain yn yr adran 'asesu perfformiad' er eu bod wedi'u gosod o dan y 'meysydd fframwaith' newydd yn hytrach na'r 'safonau lles' blaenorol.

Pwy Ydym Ni a'r Hyn Rydym yn Ei Wneud

Mae'r Gyfarwyddiaeth yn cynnwys tri maes gwasanaeth allweddol:

- **Gwasanaethau i Oedolion** – Rhoi cymorth i oedolion i fyw mor annibynnol â phosibl, gan ganolbwyntio ar eu cryfderau, eu cysylltiadau teuluol a chymunedol tra'n diwallu anghenion cymwys a aseswyd yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- **Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc** – Hyrwyddo a diogelu lles plant a phobl ifanc, darparu cymorth amserol i deuluoedd, a sicrhau gofal penodol o ansawdd uchel pan fo angen.
- **Rheoli a Diogelu Adnoddau** – Goruchwyllo arweinyddiaeth, cynllunio ariannol, datblygu'r gweithlu, diogelu, comisiynu, rheoli perfformiad, a chynllunio strategol i sicrhau y darperir gwasanaethau yn effeithiol.

Cyflawniadau Allweddol

- **Gwell Mynediad at Wasanaethau** – Amseroedd ymateb cyflymach a chymorth mwy hygyrch i unigolion a theuluoedd.

- **Gwell ansawdd gofal** – Mwy o hyfforddiant staff a gwelliannau gwasanaeth sy'n arwain at lefelau boddhad uwch.
- **Cryfhau Cymorth Cymunedol** – Partneriaethau cryfach gyda sefydliadau lleol i helpu unigolion i dderbyn gofal yn eu cymunedau.
- **Arloesi mewn Darparu Gwasanaethau** – Gweithredu offer digidol er gwell effeithlonrwydd a hygyrchedd.

Heriau a Meysydd i'w Gwella

- **Galw cynyddol** – Diwallu anghenion cynyddol poblogaeth sy'n heneiddio a'r rhai sydd â gofynion cymhleth.
- **Pwysau'r Gweithlu** – Heriau recriwtio a chadw, gydag ymdrechion parhaus i ddatblygu a chefnogi staff.
- **Cyfyngiadau Ariannol** – Rheoli pwysau cyllideb tra'n cynnal safonau gofal uchel.

Edrych tua'r Dyfodol

Mae ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cynnwys gwella gofal ataliol, gwella hygyrchedd digidol, a meithrin partneriaethau cryfach i greu rhwydwaith cymorth integredig.

Cyd-destun:**Arweinyddiaeth:**

Mae gwasanaethau cymdeithasol ym Mro Morgannwg yn cael eu goruchwyllo drwy'r Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol ac yn cael cyfarwyddyd gan yr aelod cabinet arweiniol. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn gweithredu gyda chysylltiad agos â'r pedair cyfarwyddiaeth arall yn y Cyngor. Mae'r adroddiad hwn wedi'i osod yng nghyd-destun Cynllun Corfforaethol newydd ([Y Fro 2030](#)). Datblygwyd Vale 2030 gyda mewnwleidiadau a gasglwyd o Asesiad Perfformiad Panel ac felly mae gan yr amcanion a nodir sylfaen dystiolaeth glir. Mae gan y Gwasanaethau Cymdeithasol [Cynllun y Gyfarwyddiaeth](#) i helpu i gyflawni Vale 2030 ac i gefnogi'r gwahanol raglenni trawsnewid yn y gwasanaeth. Yn ystod y blynyddoedd nesaf, mae'n debyg y gwelir rhai o'r newidiadau mwyaf mewn gofal cymdeithasol yn y Fro. Yn arbennig, bydd cyflawni agenda 'Dileu Elw' Llywodraeth Cymru yn gofyn am waith sylweddol. Yn yr un modd, mae'r trawsnewid i system gofnod TG gofal cymdeithasol newydd yn cynrychioli gweithgarwch sylweddol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi:

- Cyflwyno Fframwaith Sicrwydd Ansawdd i gefnogi gwerthuso perfformiad gwasanaethau sy'n sbarduno arferion effeithiol, atebol a seiliedig ar dystiolaeth sy'n llywio'r gwaith o wella gwasanaethau.
- Cryfhau cydweithrediad aml-asiantaeth, yn enwedig wrth ddiogelu, comisiynu a modelau gofal cymunedol, gan sicrhau bod penderfyniadau'n ddoeth ac yn dryloyw.

Y Gweithlu:

Mae ein gweithlu gofal cymdeithasol yn sylfaen i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi:

- Gweithredu polisi goruchwyllo newydd, gan sicrhau ymarfer cyson a datblygiad proffesiynol ym mhob tîm.
- Ymdrechion parhaus i recriwtio, hyfforddi a chadw staff, yn enwedig mewn gwaith cymdeithasol rheng flaen a rolau gofal arbenigol.
- Ymgynghori â'r holl staff o fewn y gyfarwyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol yng nghyswllt ein blaenoriaethau recriwtio a chadw.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn:

- Gweithredu argymhellion Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i ddileu hiliaeth mewn gofal cymdeithasol a gwella recriwtio a chadw'r gweithlu.
- Archwilio gofod swyddfa newydd ar gyfer gwasanaethau oedolion, gan sicrhau bod gan staff gyfleusterau priodol i weithio'n effeithiol.

Adnoddau Ariannol

Mae ein rheolaeth ariannol yn sicrhau bod adnoddau yn cael eu dyrannu'n effeithlon er mwyn darparu gwasanaethau. Wedi dweud hynny, mae'r Gyfarwyddiaeth wedi gorwario'n sylweddol eleni. Mae'r gorwariant yn cael ei briodoli'n bennaf i'r angen i ymyrryd yn achosion mwy o blant, eu diogelu, a rhoi cymorth, ond mae'r boblogaeth hyn sy'n tyfu yn parhau i fod angen mwy o lefelau gofal i fyw'n annibynnol hefyd. Yn gryno, rydym yn rhoi cymorth i fwy o bobl nag erioed o'r blaen, ac mae hyn yn effeithio ar ein cyllideb.

Mae darpariaeth gwasanaethau y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei chynnal gyda chyllideb sylfaenol amcangyfrifedig o **£106.519 miliwn** am 2025/26. Mae hyn

yn cynnwys dyfarniad cyllid i'r Gyfarwyddiaeth at bwysau costau cyflog o **£410,000** at bwysau chwyddiant a chostau gwasanaeth eraill o **£13.635 miliwn** i'r un cyfnod.

Yn ogystal, mae'r gyfarwyddiaeth wedi ymrwymo i gflawni **£3.624 miliwn** gwerth o arbedion yn ystod 2025/26.

Yn ystod y dyfodol rhagweladwy, bydd yn ofynnol i'r Cyngor leihau gwariant cyllidebol yn sylweddol gan nad ydym yn gallu cadw i fyny â'r pwysau cost a achosir gan alw cynyddol a chynnydd mewn prisiau. Bydd y Gyfarwyddiaeth yn parhau i gynnal adolygiadau gwasanaeth i adnabod meysydd lle gellir gwireddu effeithlonrwydd gan arwain at ostyngiad mewn gwariant neu gynnydd mewn cynhyrchu incwm fel y bo'n briodol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi:

- Adnabod prosiectau gwella a datblygu cyfalaf mewn ymateb i Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad.
- Buddsoddi mewn trawsnewid digidol, gan baratoi ar gyfer disodliad System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru i wella rhannu data ac integreiddio gwasanaethau.
- Gwella ein prosesau adfer incwm

Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn:

- Cyflawni ein rhaglen gynilo uchelgeisiol sy'n cynnwys y canlynol.
 - Rhyddhau amser gofal drwy anfon un person yn unig lle y bo hynny'n ddiogel
 - Datblygu model ailalluogi yn gyntaf i sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o annibyniaeth unigolyn cyn comisiynu pecynnau gofal tymor hwy.
 - Adennill mwy o ddyledion
 - Defnyddio lletyau preswyl i blant yn effeithlon
 - Helpu teuluoedd i aros gyda'i gilydd ac osgoi'r angen am ymyrraeth fwy costus
 - Lleihau'r defnydd o staff asiantaeth

Mae'r gyllideb gofal cymdeithasol yn cael ei dyrannu i wasanaethau fel a ganlyn:

- Gwasanaethau i Oedolion – £73.125 miliwn (£65.177 miliwn y flwyddyn flaenorol)
- Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc – £24.735 miliwn (£22.508 miliwn y flwyddyn flaenorol)
- Rheoli a Diogelu Adnoddau – £8.659miliwn (£8.642 miliwn y flwyddyn flaenorol)

– Nifer y cysylltiadau


Gwasanaethau Oedolion

The number of contacts received for adults by statutory social services during the year. a. The total number of contacts

Percentage Change

-7%

Percent decrease based on figures during 2020-21 vs 2024-25




Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc

The number of contacts received for children by statutory social services during the year.

Percentage Change

35%

Percent increase based on figures during 2020-21 vs 2024-25



darparu cyngor neu gymorth


Gwasanaethau Oedolion

The number of new contacts for adults received by statutory Social Services during the year where advice or assistance was provided.

Percentage Change

256%

Percent increase based on figures during 2020-21 vs 2024-25




Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc

The number of contacts for children received by statutory Social Services during the year where advice or assistance was provided.

Percentage Change

-6%

Percent decrease based on figures during 2020-21 vs 2024-25



Asesiadau wedi'u cwblhau


Gwasanaethau Oedolion

The number of new assessments completed for adults during the year.

Percentage Change

19%

Percent increase based on figures during 2020-21 vs 2024-25




Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc

The number of new assessments completed for children during the year.

Percentage Change

301%

Percent increase based on figures during 2020-21 vs 2024-25



Cynlluniau gofal a chymorth


Gwasanaethau Oedolion

The number of adults with a care and support plan on 31st March.

Percentage Change

19%

Percent increase based on figures during 2020-21 vs 2024-25




Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc

The number of children with a care and support plan on 31st March.

Percentage Change

7%

Percent increase based on figures during 2021-22 vs 2024-25



Data Gweithgarwch – Y Flwyddyn Bresennol

Cyfeirnod y metrig	Enw'r metrig	2024-25
AD/001a	Nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd gan oedolion â gwasanaethau cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn. a. Cyfanswm nifer y cysylltiadau	4656trrrg
AD/002	Nifer y cysylltiadau newydd a dderbyniwyd gan y Gwasanaethau Oedolion yn ystod y flwyddyn lle darparwyd cyngor a chymorth.	3259
AD/004	Nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer oedolion yn ystod y flwyddyn.	842
AD/005a	Nifer yr asesiadau oedolion newydd a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn. Dim ond drwy gynllun gofal a chymorth y gellid diwallu anghenion.	665
AD/012a	Nifer yr oedolion gyda: a. Cynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth.	2317
AD/012b	Nifer yr oedolion gyda: b. Cynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth a hefyd gynllun cymorth gofalwr, lle mae gan yr oedolyn ei anghenion a'i gyfrifoldebau gofal a chymorth ei hun fel gofalwr	17
CH/001	Nifer y cysylltiadau yn ymwneud â phlant a dderbyniwyd gan y gwasanaethau cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn.	10510
CH/002	Nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd gan wasanaethau cymdeithasol plant statudol yn ystod y flwyddyn lle darparwyd cyngor a chymorth.	2232
CH/006	Nifer yr asesiadau plant newydd a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn.	2187
CH/007a	Nifer yr asesiadau plant newydd a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn lle: a. Dim ond drwy gynllun gofal a chymorth y gellid diwallu anghenion.	251
CH/015a	Nifer y plant â'r canlynol: a. Cynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth.	750
CH/015b	Nifer y plant â'r canlynol: b. Cynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth a hefyd gynllun cymorth gofalwr, lle mae gan y plentyn ei anghenion a'i gyfrifoldebau gofal a chymorth ei hun fel gofalwr ifanc	0

Asesiad Perfformiad

Mae'r adran hon yn darparu hunanasesiad o'n perfformiad yn y pedair safon ansawdd allweddol: Pobl, Atal, Partneriaeth ac Integreiddio, a Llesiant. Mae'r asesiad yn seiliedig ar ddata gweithrediadol, adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, ymgysylltu â staff, a gwerthusiadau allanol.

1. Pobl

Mae'r awdurdod lleol yn parhau i ymrwymo i sicrhau bod unigolion yn rhan annatod o'r gwaith o gynllunio eu gofal a'u cymorth. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cryfhau ein fframwaith sicrhau ansawdd i wella gwerthusiadau perfformiad gwasanaeth. Mae'r fframwaith hwn yn hyrwyddo ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan sicrhau bod ein hymyriadau yn effeithiol, yn atebol, ac yn gwella'n barhaus i ddiwallu anghenion pobl.

Rydym hefyd wedi cyd-gynhyrchu modelau gwasanaeth newydd sy'n grymuso unigolion trwy roi mwy o lais, dewis a rheolaeth iddynt o'u gofal. Mae'r modelau hyn yn helpu i leihau dibyniaeth ar wasanaethau statudol trwy adeiladu ar gryfderau pobl a sicrhau bod eu gofal yn cael ei gynllunio gyda'r hyn sy'n bwysig iddynt mewn golwg.

Rydym wedi ehangu mecanweithiau eiriolaeth ac ymgysylltu â dinasyddion i sicrhau bod pobl yn gallu cymryd rhan lawn mewn penderfyniadau am eu gofal.

Rydym yn parhau i ymgorffori dulliau o gyd-gynhyrchu wrth ddylunio gwasanaethau trwy:

- Datblygu a gweithredu modelau gwasanaeth newydd sy'n blaenoriaethu adborth defnyddwyr a hunanbenderfyniad.
- Cryfhau modelau gofal cymunedol, lleihau amser diangen yn yr ysbyty a sicrhau bod cymorth ar gael mewn lleoliadau cyfarwydd, cymunedol.

Cymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau

Mae datblygiadau allweddol yn ein dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau yn cynnwys:

- Cyflwyno'r Rhaglen Cymunedau sy'n Deall Dementia, gan sicrhau bod unigolion â dementia a'u gofalwyr yn derbyn cymorth priodol.
- Archwilio ffyrdd newydd o helpu cymunedau i fod yn gefn i'w gilydd, gan helpu unigolion i aros yn annibynnol trwy gysylltiadau lleol cryfach.
- Gweithio gyda phartneriaid i adnabod prosiectau gwella a datblygu cyfalaf i dyfu gwasanaethau yn unol ag Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad.
- Cymorth parhaus i ofalwyr di-dâl, sy'n canolbwyntio ar anghenion unigol Gofalwyr Di-dâl ac yn darparu ystod o wybodaeth, cyngor a chymorth. Gallwch ddarllen popeth am ein gwasanaethau a'n hymrwymadau i Ofalwyr Di-dâl yma: [Adroddiad Blynyddol Gofalwyr Di-dâl 2024](#)

Sicrhau arfer o ansawdd uchel, sy'n seiliedig ar dystiolaeth

Mae ein fframwaith sicrhau ansawdd wedi'i ymgorffori i yrru cysondeb yn ymarferol, ochr yn ochr â pholisi goruchwyllo newydd sy'n sicrhau safonau uchel i bob un o'n timau. Mae'r gwaith paratoi ar gyfer disodliad System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru hefyd wedi dechrau, gan sicrhau gwelliannau mewn rheoli achosion digidol yn y dyfodol.

Y Gymraeg: Y Cynnig Rhagweithiol a Mwy na Geiriau

Rydym yn parhau i adeiladu ar y Cynnig Rhagweithiol trwy:

- Ehangu gwasanaethau eiriolaeth Gymraeg eu hiaith.
- Gwella hyfforddiant dwyieithog i staff.
- Sicrhau bod asesiadau gofal cymdeithasol a chynllunio gofal yn hygyrch yn Gymraeg i'r rhai sydd ei angen.

Sut rydyn ni'n gwybod hynny?

- **Ymgynghoriad Gwasanaeth Dydd Oedolion:**

- Mae Bro Morgannwg yn darparu tri lleoliad Gwasanaeth Oriau Dydd i Oedolion sy'n rhoi cymorth i oedolion hŷn, unigolion ag anghenion cymhleth, a'r rhai ag anableddau corfforol. Nod y gwasanaethau hyn yw cynnig cyfleoedd ystyrlon i unigolion adeiladu hyder, ymgysylltu'n gymdeithasol, ffurfio cyfeillgarwch newydd, teimlo'n werthfawr, a mwynhau eu hunain. Cyflawnir hyn trwy amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau sydd wedi'u cynllunio i hyrwyddo eu twf a'u lles personol.
- Fe fuom yn ymgynghori â dinasyddion a'u perthnasau yn ein tri chyfleuster gwasanaeth oriau dydd i oedolion i gasglu adborth ganddynt a'u teuluoedd i ddangos a sicrhau bod ein ymyriadau yn effeithiol ac yn diwallu anghenion pobl. Nodwyd y canlynol yn yr adborth:

Diogelwch a Chymorth		
Agwedd ar les (% ar gyfartaledd)	Dinasyddion (57)	Perthnasau (23)
Mae'r unigolyn / yr aelod o'r teulu yn ddiogel wrth fynychu'r gwasanaeth oriau dydd	98%	100%
Gwradewir ar yr unigolyn / yr aelod o'r teulu ac mae'n hapus gyda'r gofal a'r cymorth y mae'n eu cael	75%	100%
Mae annibyniaeth yr unigolyn / yr aelod o'r teulu wedi gwella ers mynychu'r gwasanaeth oriau dydd	57%	61%


- Mynegodd dinasyddion a'u perthnasau fod y gwasanaethau dydd yn darparu gofal o safon uchel, yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau, yn sicrhau amgylchedd diogel, yn creu cyfleoedd i gymdeithasu, ac yn cyflogi staff cyfeillgar, cymwynasgar sy'n darparu anogaeth.

- **Ymgynghoriad Dechrau'n Deg:**

- Mae Dechrau'n Deg yn fenter gan Lywodraeth Cymru sydd wedi'i chynllunio i helpu teuluoedd i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i'w plant. Mae lleoliadau Dechrau'n Deg yn cynnig gofal plant am ddim, o ansawdd uchel i deuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd dynodedig, gyda ffocws cryf ar hyrwyddo canlyniadau gwell i blant.
- Fe fuom yn ymgynghori â 29 o rieni a gofawyr, a rhoddodd 73% ohonynt sgôr 'Ardderchog' i ofal plant Dechrau'n Deg ar gyfartaledd.
- '5 seren, staff anhygoel a chyfeillgar!'
- Cynigiodd rhieni awgrymiadau gwerthfawr ar gyfer gwella'r gwasanaeth, gan gynnwys annog mwy o gyfranogiad rhieni a threfnu mwy o ddigwyddiadau a gwibdeithiau.

Data Pobl:

Pobl sydd â chynllun gofal a chymorth lle mae anghenion yn cael eu diwallu trwy Daliad Uniongyrchol



Blwyddyn Bresennol:

Cyfeirnod y metrig	Enw'r metrig	2024-25
AD/013	Cyfanswm yr oedolion â chynllun gofal a chymorth lle mae anghenion yn cael eu diwallu drwy Daliad Uniongyrchol ar 31 Mawrth.	288
AD/032	Cyfanswm nifer yr oedolion yn ystod y flwyddyn lle nodwyd yr angen am eiriolwr proffesiynol annibynnol.	42

AD/033	Cyfanswm nifer yr oedolion yn ystod y flwyddyn lle nodwyd yr angen am eiriolwr proffesiynol annibynnol a darparwyd eiriolwr proffesiynol annibynnol.	Dim Data Ar Gael
CH/016	Cyfanswm nifer y plant â chynllun gofal a chymorth lle mae anghenion yn cael eu diwallu drwy Daliad Uniongyrchol ar 31 Mawrth.	69
CH/056	Cyfanswm nifer y "Cynigion Rhagweithiol" o eiriolaeth i blant, pump oed a hŷn ar ddechrau'r flwyddyn gasglu, yn ystod y flwyddyn.	76
CH/057	Cyfanswm nifer "Cynigion Rhagweithiol" eiriolaeth i blant yn ystod y flwyddyn lle darparwyd Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol.	47

Pa gynnydd wnaethom ni ar flaenoriaethau y llynedd?

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi:

- Cyflwyno fframwaith sicrwydd ansawdd i helpu i werthuso perfformiad gwasanaethau ac ysgogi arferion effeithiol, atebol a seiliedig ar dystiolaeth a gwelliannau i wasanaethau.
- Parhau i gyd-gynhyrchu modelau gwasanaeth newydd sy'n cynnig llais a rheolaeth i'r dinesydd ac yn lleihau dibyniaeth ar ddarpariaeth gwasanaeth statudol.
- Parhau i oruchwylio ein hatgyfeiriadau wrth y drws ffrynt er mwyn sicrhau ein bod yn ymateb yn effeithiol i reoli'r galw.
- Gweithredu polisi goruchwylio newydd a sicrhau bod ymarfer cyson ar waith ym mhob rhan o'r gwasanaeth.
- Parhau i ganolbwyntio ar gymryd rhan yn y rhaglen gostyngiadau awdurdodau lleol i reoli'r galw am leoliadau o fewn Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc.
- Ymgysylltu â dinasyddion ar bolisi Taliadau Uniongyrchol newydd.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn:

- Datblygu micro-fentrau lleol i helpu trigolion i gael dewis ehangach o wasanaethau
- Datblygu llety dielw lleol i ddiwallu anghenion ein plant.
- Lleihau ein niferoedd o blant sy'n derbyn gofal mewn ffordd ddiogel.
- Parhau i weithredu datblygiadau yn ein Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth i ofalwyr di-dâl a gofalwyr ifanc
- Adolygu darpariaeth cartrefi gofal mewnol
- Sefydlu grŵp cynghori Panel Rhianta Corfforaethol

2. Atal

Mae atal yn parhau i fod ar flaen y gad yn ein dull o ofal cymdeithasol. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo modelau gofal cymunedol, gan sicrhau bod pobl yn derbyn y cymorth cywir ar yr adeg iawn.

Yn ogystal, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol yn:

- Cyflwyno ein Rhaglen Cymunedau sy'n Deall Dementia, gan sicrhau bod cymorth wedi'i deilwra ar gael i'r rhai sy'n byw gyda dementia.
- Helpu cymunedau i fod yn gefn i'w gilydd, cryfhau rhwydweithiau lleol a lleihau ynysigrwydd.

Rydym yn parhau i ddatblygu dulliau integredig i atal cynnydd mewn angen. Mae'r datblygiadau allweddol yn cynnwys:

- Gweithio gyda phartneriaid iechyd i leihau arhosiadau diangen yn yr ysbyty yn unol â Safon Bregusrwydd Llywodraeth Cymru.
- Cryfhau brysbennu drws ffrynt ac ymyrraeth gynnar, gan sicrhau bod pobl yn derbyn cymorth cymesur ac amserol.

Mae atal yn parhau i fod wedi'i ymgorffori ar bob lefel o ddarpariaeth gwasanaethau. Mae'r cyflawniadau'n cynnwys:

- Mesurau Poblogaeth Ehangach:
 - Mwy o fuddsoddiad mewn rhaglenni atal cwympiadau, gan leihau derbyniadau i'r ysbyty.
 - Ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd ar heneiddio yn dda a hunan-ofal.
- Ymyriadau wedi'u Targedu ar gyfer Unigolion:
 - Cryfhau cymorth i ofalwyr ac unigolion mewn perygl, gan sicrhau ymyrraeth gynnar.
 - Taliadau uniongyrchol estynedig a gofal hunan-reoledig, gan roi mwy o reolaeth i unigolion dros y cymorth y maent yn ei dderbyn.

Sut rydyn ni'n gwybod hynny?

- Parhawyd i gydymffurfio â'n targedau prydlongdeb wrth ymateb i ymholiadau diogelu oedolion.
- Mae llai o blant yn dod yn destun cofrestru a chynllunio amddiffyn plant, gyda'n dull o gymorth cywir ar yr adeg iawn yn sicrhau bod cynnydd a dad-ddwysáu priodol o amddiffyn plant i wasanaethau gofal a chymorth yn seiliedig ar anghenion unigol plant a'u teuluoedd.

• Ymgynghoriad Taliad Uniongyrchol:

- Gall Taliadau Uniongyrchol hyrwyddo dewis; llais, rheolaeth a hyblygrwydd trwy alluogi a grymuso unigolion i gyflawni canlyniadau lles fel y cytunwyd yn yr Asesiad Unigol. Y prif amcan yw i unigolion allu aros mor annibynnol, gyda chymorth neu hebdo, i fyw yn eu cartrefi eu hunain, bod yn rhan iawn o fywyd teuluol a chymunedol, a chymryd rhan mewn gwaith, addysg a hamdden pan a lle bo'n bosibl i fyw'r bywyd y maent am ei fyw. Ar ddiwedd Ebrill 2025, ar hyn o bryd mae gennym 361 o unigolion sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol. Fel Awdurdod rydym wedi ymrwymo i ehangu Taliadau Uniongyrchol ymhellach. Ein nod yw cynyddu nifer yr

unigolion sy'n cyrchu Taliadau Uniongyrchol i recriwtio mwy o Gynorthwyyr Personol, a'r llynedd fe wnaethom gynyddu'r gyfradd Taliadau Uniongyrchol fesul awr a'r cyflog awr Cynorthwyydd Personol gyda'r nod o wella'r rhain yn ystod 26/27.


- Cynhaliom ymgynghoriadau gyda staff sy'n cyfeirio unigolion ar gyfer Taliadau Uniongyrchol (20), pobl sy'n eu derbyn ar hyn o bryd (104), a'r rhai nad ydynt mwyach yn gwneud hynny (23).

Mae'r canfyddiadau allweddol yn cynnwys:


- **72%** o dderbynwyr presennol yn nodi yr oedd yn hawdd sefydlu eu Taliad Uniongyrchol.
- **93%** yn adrodd eu bod yn fodlon â'r gwasanaeth maen nhw'n ei dderbyn.
- **97%** yn dweud bod Taliadau Uniongyrchol wedi gwella ansawdd eu bywyd.
- Roedd adborth hefyd yn nodi y byddai derbynwyr yn gwerthfawrogi **canllawiau cliriach** ar beth y gellir defnyddio Taliadau Uniongyrchol i'w brynu / beth na cheir ei brynu gyda'r taliadau.
- Ymhlith y rhai nad ydynt yn derbyn Taliadau Uniongyrchol mwyach, y prif resymau dros roi'r gorau iddi oedd **anawsterau wrth ddod o hyd i gynorthwyyr personol a heriau sy'n gysylltiedig ag anghenion gofal cynyddol**.
- O safbwynt staff:
 - **65%** oedd yn nodi bod y meini prawf cymhwysedd yn glir.
 - Fodd bynnag, adroddodd **85%** nad oeddent wedi derbyn fawr ddim hyfforddiant ar Taliadau Uniongyrchol, gan dynnu sylw at fwch mewn cymorth a dealltwriaeth.

Data Atal:



Cyfanswm nifer yr asesiadau newydd




Roedd modd diwallu anghenion drwy ddull arall



Nifer y cysylltiadau newydd a dderbyniwyd gan y Gwasanaethau Oedolion yn ystod y flwyddyn lle darparwyd cyngor a chymorth



Cyfanswm nifer y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn.



Blwyddyn Bresennol

Cyfeirnod y metrig	Enw'r metrig	2024-25
AD/002	Nifer y cysylltiadau newydd a dderbyniwyd gan y Gwasanaethau Oedolion yn ystod y flwyddyn lle darparwyd cyngor a chymorth.	3259
AD/004	Nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer oedolion yn ystod y flwyddyn.	842
AD/005a	Nifer yr asesiadau oedolion newydd a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn. Dim ond drwy gynllun gofal a chymorth y gellid diwallu anghenion.	665
AD/005b	Nifer yr asesiadau oedolion newydd a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn lle: b. Roedd modd diwallu anghenion drwy ddull arall.	150
AD/010	Cyfanswm nifer y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn.	561
AD/011a	Cyfanswm nifer y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn a oedd: a. yn lleihau'r angen am gymorth	62 (11% 62/561)
AD/011b	Cyfanswm nifer y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn a oedd: b. yn cynnal yr angen am gymorth	6 (1% 6/561)
AD/011c	Cyfanswm nifer y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn a oedd: c. yn lliniaru'r angen am gymorth	474 (85% 474/561)

AD/011d	Cyfanswm nifer y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn a oedd: d. Heb leihau, cynnal, na lliniaru'r angen am gymorth	19 (3% 19/561)
CH/002	Nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd gan wasanaethau cymdeithasol plant statudol yn ystod y flwyddyn lle darparwyd cyngor a chymorth.	2232
CH/007a	Nifer yr asesiadau plant newydd a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn lle: a. Dim ond drwy gynllun gofal a chymorth y gellid diwallu anghenion.	251
CH/007b	Nifer yr asesiadau plant newydd a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn lle: b. Roedd modd diwallu anghenion drwy ddull arall.	1569

Pa gynnydd wnaethom ni ar flaenoriaethau y llynedd?

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi:

- Cyflwyno ein rhaglen cymunedau sy'n deall dementia.
- Ymchwilio i ddatrysiadau wedi'u harwain gan y gymuned, gan gryfhau cysylltiadau cymdeithasol i leihau ynysu a hyrwyddo gwytnwch.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn:

- Ehangu gofal plant Dechrau'n Deg i blant dwy oed, gan dargedu ardaloedd difreintiedig.
- Datblygu llwybr cyn-enedigol effeithiol sy'n lliniaru risg ar y cyfle cynharaf ac yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd i osgoi gwaethygu.
- Cynyddu nifer yr oedolion yr ydym yn cynnig seibiant iddynt yn ein cartrefi gofal mewnol.

3. Partneriaeth ac Integreiddio

Cydweithredu er mwyn gwireddu canlyniadau integredig, o ansawdd uchel a chynaliadwy

Mae'r awdurdod lleol yn parhau i ymrwymo i weithio mewn partneriaeth gref i sicrhau bod pobl yn derbyn gwasanaethau o ansawdd uchel, cynaliadwy a chwbl integredig. Mae gan Fro Morgannwg drefniadau integredig datblygedig gyda thîm rheoli integredig sy'n cwrdd iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol oedolion. Mae timau wedi'u hintegreiddio neu o leiaf wedi'u cydleo'i ac mae gan reolwyr gyfrifoldeb am staff iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn arwain at drefniadau iechyd a gofal mwy di-dor a staff brwdfrydig sy'n gweithio'n dda gyda'i gilydd i roi cymorth i'n preswylwyr yn y ffordd orau a allant.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweithio'n agos gyda'n byrddau iechyd, yr heddlu, sefydliadau'r trydydd sector, mentrau cymdeithasol, ac awdurdodau lleol eraill i ddatblygu a darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion ein poblogaeth.

Mewn partneriaeth â bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro a phartneriaid rhanbarthol, rydym yn parhau i gryfhau asesiadau poblogaeth integredig, gan sicrhau bod comisiynu gwasanaethau yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn cyd-fynd ag anghenion lleol. Enghraifft ddiweddar o ddatblygiadau gwasanaeth integredig fyddai'r cofnod gofal cryno newydd sy'n caniatáu i staff o'r ddau sefydliad rannu a gweld cofnodion perthnasol i'n preswylwyr.

Rydym wedi mynd ati gyda phartneriaid i hyrwyddo modelau gofal cymunedol, gan sicrhau bod unigolion yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt yn y lleoliad cywir. Mae hyn yn cyd-fynd â Safon Bregusrwydd Llywodraeth Cymru, gan sicrhau bod arosiadau diangen yn yr ysbyty yn cael eu lleihau, a bod pobl yn derbyn gofal amserol, sy'n canolbwyntio ar y person. Mae'r data Llwybrau Gofal Gohiriedig Bro Morgannwg yn dangos ein bod yn perfformio'n uchel wrth gynorthwyo i ryddhau cleifion yn gyflym ac effeithiol o'r ysbyty.

Trwy ymgorffori dulliau cydweithredol, person-ganolog a seiliedig ar dystiolaeth, rydym wedi cryfhau ein gallu i ddarparu gwasanaethau integredig, o ansawdd uchel a chynaliadwy. Wrth symud ymlaen, byddwn yn parhau i adeiladu ar ein cyflawniadau, gan sicrhau bod gweithio mewn partneriaeth yn parhau i fod yn ganolog i'r ffordd yr ydym yn llunio ac yn darparu gofal cymdeithasol yn ein cymunedau.

Rydym yn parhau i gyflawni ein dyletswyddau statudol a'n cydweithrediad trwy gael presenoldeb cyson ac ymgysylltiedig o fewn fforymau aml-asiantaeth fel Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd, Cynhadledd Amlasianaeth Asesu Risg, a'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. Llwyddiant allweddol oedd ein gwaith ar y cyd ar waith paratoadol cyn cyflwyno system wybodaeth gofal cymunedol Cymru newydd gan sicrhau bod gofal yn y dyfodol yn cael ei gydlynu'n fwy effeithlon ac yn fwy gydgyssylltiedig. Rydym yn gwneud hyn gyda Chynghorau Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr.

Sut rydyn ni'n gwybod hynny?

- **Ymgynghoriad Gwasanaeth Adnoddau Cymunedol y Fro (GACF):**
- Tîm iechyd, gofal cymdeithasol a thrydydd sector integredig wedi'i leoli yn Ysbyty'r Barri yw Gwasanaeth Adnoddau Cymunedol y Fro (GACF) sy'n gweithio ar y cyd â gwasanaethau eraill ledled Caerdydd a Bro Morgannwg.


- Mae'r tîm yn gweithio gydag unigolion yn eu cartrefi eu hunain i sicrhau'r annibyniaeth swyddogaethol orau posibl o ran gweithgareddau bywyd bob dydd, ac yn y ffordd hon lleihau'r angen am fynd i'r ysbyty a gwasanaethau gofal gan y Gwasanaethau Cymdeithasol am dymor hwy. Mae'n cynnig ymyrraethau therapiwtig a chymorth ail-alluogi i bobl ar ôl iddynt gael eu derbyn yn yr ysbyty, fel y gallant ddychwelyd adref mor sydyn â phosibl. Mae'n anelu at ddarparu ymyrraeth a chymorth therapiwtig ardderchog sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae GACF yn gweithio mewn partneriaeth â'r unigolyn tuag at gyflawni nodau sydd wedi'u nodi ar y cyd.
- Mae ein tîm yn cynnwys Therapyddion Galwedigaethol, Gweithwyr Cymdeithasol, Ffisiotherapyddion, Therapyddion Lleferydd ac Iaith, Dietegwyr, Nyrsys, staff Cydlynu Gofal a Gweithwyr Cymorth Ailalluogi (Gofalwyr Cartref). Mae tua 45 o Weithwyr Cymorth Ailalluogi'n gweithio gyda phobl mewn ffordd alluogi i roi cymorth i'r unigolyn i sicrhau hyder ac annibyniaeth yn dilyn cyfnod o salwch. Mae Gweithwyr Cymdeithasol CACF yn gweithio gydag unigolion i sefydlu anghenion cymorth parhaus, gan gysylltu â thimau rheoli gofal o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol i sefydlu pecynnau cymorth parhaus os oes angen.
- Gall unigolion dderbyn ymyriad therapiwtig a chymorth ailalluogi am hyd at 6 wythnos. Mae rhaglen therapiwtig / cynllun darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y cleient yn cael ei gyd-gynhyrchu gyda'r unigolyn a'i adolygu trwy gydol yr ymyrraeth.
- Mae GACF yn gweithredu 7 diwrnod yr wythnos 365/6 diwrnod y flwyddyn.
- Fe fuom yn ymgynghori â 104 o unigolion a oedd wedi derbyn cymorth gan Wasanaeth Adnoddau Cymunedol y Fro (GACF). Datgelodd y gwaith hwn fod 76% o'r ymatebwyr yn teimlo bod yr ymyriadau wedi gwella eu hannibyniaeth, eu diogelwch a'u lles corfforol.
- Roedd 84% o'r ymatebwyr hefyd yn teimlo bod eu gofal a'u cymorth wedi eu helpu i reoli eu bywydau bob dydd, gan eu galluogi i gymryd rhan yn yr hyn sy'n bwysig iddynt.

Ymgynghoriad Tîm Iechyd Meddwl Ardal y Fro (TIMAF):


- Mae Tîm Iechyd Meddwl Ardal y Fro yn gweithio mewn partneriaeth ag Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghyd â darparwyr eraill y sector gwirfoddol. Mae tîm Iechyd Meddwl Ardal y Fro yn darparu gofal i oedolion oedran gweithio (18-65 oed) sydd â phroblemau iechyd meddwl cymedrol i ddifrifol, ansefydlog.
- Nod Timau Iechyd Meddwl Cymunedol yw:
 - Hyrwyddo iechyd ac adferiad
 - Cynnig ymateb lleol i bobl leol
 - Darparu gofal unigol yn seiliedig ar anghenion y person
 - Cynnig amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys asesu, diagnosis a thriniaeth
 - Defnyddio ystod o therapïau, technegau ac ymyriadau cymdeithasol
- Fe fuom yn ymgynghori â 74 o unigolion sy'n derbyn cymorth un-wrth-un, yn cymryd rhan mewn gwaith grŵp, neu'n byw yng Ngerddi Sant Mihangel. Canfu ein hymgysylltiad fod gwasanaethau yn y tri maes hyn wedi cyfrannu at wella iechyd meddwl a lles emosiynol 98% o gyfranogwyr ar gyfartaledd. Yn ogystal, dywedodd 84% fod eu hyder wedi gwella'n rhannol neu'n llawn.
- Yr agweddau ar y gwasanaeth hwn yr ystyriwyd eu bod yn fwyaf defnyddiol oedd yr elfennau ymgysylltu cymdeithasol a strwythur, anogaeth a chymhelliant, cyfathrebu heb feirniadu a datblygu sgiliau.

Data Partneriaeth ac Integreiddio:


Nifer y Cyfarfodydd Strategaeth Cychwynnol â phlant a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn gasglu.




Nifer y Cyfarfodydd Strategaeth a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a symudodd ymlaen i ymholiadau Adran 47.




Cyfanswm nifer yr ymholiadau Adran 47 a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn a symudodd ymlaen i Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol.




Nifer y plant a ychwanegwyd at y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn gasglu: pob plentyn – o'r rhai a ychwanegwyd, y nifer a oedd wedi'u cofrestru o'r blaen ar unrhyw adeg yn ystod y 12 mis cynt




Cyfanswm nifer yr adroddiadau am oedolyn yr amheuwyd ei fod mewn perygl a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn.



Cyfanswm nifer yr adroddiadau am oedolyn yr amheuwyd ei fod mewn perygl lle roedd angen gwneud ymholiadau.



Cyfanswm nifer yr ymholiadau lle penderfynwyd y dylid rhoi camau ychwanegol ar waith.



Blwyddyn Bresennol:

Cyfeirnod y metrig	Enw'r metrig	2024-25
AD/020	Cyfanswm nifer yr adroddiadau am oedolyn yr amheuwyd ei fod mewn perygl a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn.	800
AD/023	Cyfanswm nifer yr adroddiadau am oedolyn yr amheuwyd ei fod mewn perygl lle roedd angen gwneud ymholiadau yn ôl categori oedran.	228 29% (228/800)
AD/026	Cyfanswm nifer yr ymholiadau lle penderfynwyd y dylid rhoi camau ychwanegol ar waith.	37
CH/020	Nifer y Cyfarfodydd Strategaeth Cychwynnol â phlant a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn gasglu.	686
CH/021	Nifer y Cyfarfodydd Strategaeth a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a symudodd ymlaen i ymholiadau Adran 47.	356
CH/022	Cyfanswm nifer yr ymholiadau Adran 47 a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn a symudodd ymlaen i Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol.	110
CH/024	O'r plant hynny a ychwanegwyd at y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn gasglu, y nifer a oedd wedi'u cofrestru o'r blaen dan unrhyw gategori, ar unrhyw adeg yn ystod y 12 mis cynt.	5

Pa gynnydd wnaethom ni ar flaenoriaethau y llynedd?

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi:

- Mae gweithredu'r Fforwm Adran 16 wedi bod yn gam mawr o ran hyrwyddo mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, a gwasanaethau wedi'u harwain gan ddefnyddwyr. Mae'r fforwm hwn yn dod â phartneriaid o bob rhan o'r sector ynghyd i gyd-gynhyrchu a darparu gwasanaethau ataliol cynaliadwy.
- Gweithio gyda chydweithwyr a phartneriaid i adnabod prosiectau gwella a datblygu cyfalaf i ymateb i'r gofynion i ddatblygu gwasanaethau yn unol ag adroddiad sefydlogrwydd y farchnad.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn:

- Parhau i ddatblygu'r gwasanaeth materion llesiant a Thimau Amlddisgyblaethol Clwstwr Meddygon Teulu.
- Adolygu darpariaeth fewnol cartrefi gofal.

4. Lles

Sicrhau Bod Pobl yn Cael Eu Hamddiffyn a'u Diogelu rhag Niwed

Mae'r awdurdod lleol wedi ymrwymo i amddiffyn a diogelu unigolion rhag camdriniaeth, esgeulustod, a mathau eraill o niwed. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cryfhau ein trefniadau diogelu, gan sicrhau bod oedolion a phlant agored i niwed yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt wrth hyrwyddo annibyniaeth a lles.

Mae ffocws allweddol wedi bod ar ymyrraeth gynnar a mesurau ataliol, gan leihau'r risg o niwed trwy gymorth amserol ac effeithiol. Rydym wedi cynnal goruchwyliaeth gadarn o atgyfeiriadau wrth y drws ffrynt, gan sicrhau ein bod yn rheoli'r galw yn effeithiol wrth ddarparu'r lefel gywir o gymorth ar yr adeg iawn.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda byrddau diogelu rhanbarthol, gan sicrhau dull aml-asiantaeth o amddiffyn plant ac oedolion. Lle bo hynny'n briodol, gellir dod o hyd i ragor o fanylion am drefniadau diogelu yn [Adroddiadau'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol](#). Yn ogystal, mae ein Grŵp Gweithredol Diogelu Lleol yn dod â phartneriaid at ei gilydd ar lefel leol i ganolbwyntio ar ddiogelu ym Mro Morgannwg.

Rhoi Cymorth i Bobl i Reoli Eu Lles yn Ymarferol

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod pobl yn cael rheolaeth dros eu bywydau eu hunain, gan roi'r cymorth iddynt i gyflawni eu potensial llawn a byw'n annibynnol cyn hired â phosibl. Mae'r datblygiadau allweddol yn cynnwys:

Cryfhau Cymorth Cymunedol

Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo modelau gofal cymunedol, gan sicrhau bod pobl yn derbyn cymorth yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain, yn hytrach nag mewn lleoliadau sefydliadol.

Gweithio Gyda Phobl i Ddatblygu Datrysiadau Creadigol

Mae'r awdurdod lleol yn canolbwyntio ar adeiladu ar amgylchiadau personol, cryfderau a rhwydweithiau pobl, gan sicrhau bod cymorth lles yn cael ei deilwra ac yn canolbwyntio ar y person. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi archwilio ffyrdd newydd o roi cymorth i gymunedau i fod yn gefn i'w gilydd, gan gryfhau cysylltiadau cymunedol i wella cynhwysiant cymdeithasol a lles.

Rhoi Trefniadau Diogelu Effeithiol ar Waith

Rydym wedi cymryd dull rhagweithiol o ddiogelu, gan sicrhau bod unigolion sydd mewn perygl o niwed, gan gynnwys y rhai sy'n profi hunan-esgeulustod, yn derbyn yr ymyriadau cywir i atal sefyllfaoedd argyfwng. Mae camau gweithredu wedi cynnwys:

- Gweithredu polisi goruchwyllo newydd i sicrhau arferion diogelu cyson ac effeithiol gan dimau gofal cymdeithasol.
- Cryfhau trefniadau diogelu aml-asiantaeth, gan sicrhau cydlynu agos â phartneriaid ieched, tai a'r heddlu i amddiffyn unigolion agored i niwed.

Beth Rydyn Ni'n Ei Wybod am Ansawdd ac Effaith yr Hyn Rydyn Ni'n Ei Wneud?

Mae ein mesurau diogelu yn parhau i amddiffyn unigolion sy'n agored i niwed, ac mae mentrau lles wedi ehangu mynediad at ieched meddwl a chymorth cymunedol. Fodd

bynag, mae heriau parhaus wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran mynediad at ofal.

Sut rydyn ni'n gwybod hynny?

- **Ymgynghoriad ar ôl Camau Llesiant:**

- Mae ymgynghoriadau parhaus yn cael eu cynnal gyda phlant, pobl ifanc, a'u teuluoedd, yn ogystal ag oedolion, ar ôl cwblhau asesiad llesiant, cynllun gofal a chymorth, neu adolygiad. Nod yr ymgynghoriadau hyn yw sicrhau bod gan unigolion lais, eu bod yn cadw rheolaeth dros eu bywydau, a'u bod yn cael cymorth effeithiol, sy'n canolbwyntio ar y person. Hyd yn hyn, rydym wedi derbyn adborth gan 169 o unigolion, sydd wedi tynnu sylw at y canlynol:
- Roedd 93% o'r ymatebwyr yn teimlo bod yr aseswr wedi rhoi'r amser a'r lle iddynt adrodd eu stori yn eu ffordd eu hunain.
- Roedd 98% yn cytuno bod yr asesydd wedi esbonio pethau'n glir bob amser a'i fod wedi rhoi gwybod am yr hyn a oedd yn digwydd a pham
- Roedd 100% yn cytuno eu bod nhw a'u teuluoedd yn teimlo'n gyfforddus wrth siarad â'r aseswr.

- **Ymgynghoriad Gofal Preswyl:**

- Mae ymgynghori ac ymgysylltu hefyd wedi digwydd gyda phreswylwyr a'u teuluoedd ym mhob un o bedwar cartref gofal yr awdurdod lleol, sef Cartref Porthceri, Tŷ Dewi Sant, Tŷ Dyfan a Southway.
- Gyda'i gilydd, mae pob cartref:
- Yn cynnig cymorth hirdymor a seibiant i bobl hŷn eiddil a phobl hŷn â dementia.
- Yn cynnig llety a chymorth seibiant brys.
- Yn gweithredu cyfleuster ailalluogi chwe gwely integredig.
- Canolbwyntiodd yr ymgynghoriad ar ganlyniadau lles preswylwyr a'u canfyddiadau nhw eu hunain a chanfyddiad eu perthnasau o'r gwasanaeth a dderbyniwyd. Darperir crynodeb o'n canfyddiadau isod:

Diogelwch a Chymorth		
Agwedd ar les (% ar gyfartaledd)	Trigolion (27)	Perthnasau (22)
Mae'r unigolyn / yr aelod o'r teulu yn ddiogel ac wedi'i warchod	84%	85%
Mae'r unigolyn / yr aelod o'r teulu yn teimlo bod staff yn gefnogol ac yn barchus	84%	83%
Mae'r unigolyn / yr aelod o'r teulu yn teimlo bod ei anghenion yn cael eu diwallu'n llawn	72%	69%

- Ar gyfartaledd, roedd 81% o drigolion yn teimlo bod eu lles cyffredinol wedi gwella ers symud i mewn i gartrefi'r awdurdodau lleol.

- **Ymgynghoriad Recriwtio a Chadw:**

- Fe fuom hefyd yn ymgynghori â'n staff gwasanaethau cymdeithasol ynghylch recriwtio a chadw.
Gofynnwyd i staff raddio, ar raddfa o 1 i 5, eu teimladau ynghylch diogelwch swydd, boddhad swydd, a'u profiad o weithio yn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Derbyniwyd yn y tri maes hyn sgôr gyfartalog o 3 allan o 5.
- Ystyried mai'r canlynol a gafodd yr effaith fwyaf ar brofiadau staff yn y gweithle: Cymorth cyfoedion, rheolwyr a goruchwylwyr cefnogol, gwybodaeth, cyngor a chymorth gan eraill, cyfleoedd hyfforddi a dysgu, a gweithio aml-asiantaeth / partneriaeth effeithiol
- **Gwybodaeth Allweddol ynglŷn â Goruchwyllo:**
- Ers cyflwyno'r polisi goruchwyllo'r diweddaraf, rydym wedi gallu olrhain ac adrodd gwybodaeth allweddol am sut mae goruchwyliaeth yn cael ei chyflwyno'n well. Mae hyn yn bwysig oherwydd ein bod yn deall pa mor bwysig yw hi i'n staff deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi yn eu rolau.

Data Lles:

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi:

- Ychwanegu 358 o adnoddau newydd at gyfeirlyfr lles ar-lein Dewis Cymru [Dewis.cymru](https://www.dewis.cymru) yn ardal Bro Morgannwg. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau i gefnogi pobl yn eu cartref eu hunain fel garddwyr, glanhawyr, darparwyr gofal cartref, a hefyd weithgareddau cymdeithasol a chymorth i bobl ag anawsterau dysgu.
- Erbyn hyn mae dros 1,200 o adnoddau wedi'u cyhoeddi ym Mro Morgannwg, cynnydd o 13% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Ymwelwyd â thudalennau adnoddau ym Mro Morgannwg 25,000 o weithiau'r mis ar gyfartaledd, cynnydd o 16% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. (Nid yw data ar gael ar gyfer Rhagfyr 2024-Mawrth 2025).
- Mae Mynegai teuluoedd Plant ag Anableddau neu Anghenion Ychwanegol yn parhau i dyfu, gyda 166 o gofrestrïadau newydd yn y flwyddyn ddiwethaf. Erbyn hyn mae 935 o blant a phobl ifanc ar y gofrestr, ac yn derbyn gwybodaeth reolaidd.
- Mae'r Mynegai wedi cynhyrchu Canllaw i Addysg ar gyfer Eich Plentyn ag Anghenion Ychwanegol, sy'n cefnogi teuluoedd i lywio taith eu plentyn.
- Cyrhaeddodd y Mynegai y rownd derfynol yn y categori Gwasanaethau Cynhwysol yng Ngwobrau Amrywiaeth a Chynhwysiant ThinkEDI.
- Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD) wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid cyflogadwyedd gan gynnwys y Ganolfan Byd Gwaith a Chymunedau am Waith a Mwy. Mae'r Swyddog Allgymorth yn mynychu apwyntiadau 1 wrth 1 gyda rhieni i drafod opsiynau gofal plant a chyllid, gan eu helpu yn ôl i mewn i gyflogaeth.
- Trefnodd GGD 2 barti Nadolig i deuluoedd, yn rhad ac am ddim. Mynychodd dros 500 o bobl a chefnogodd 22 o sefydliadau partner y digwyddiadau.
- Ymatebodd GGD i 1,289 o ymholiadau dros y flwyddyn, am wybodaeth i gefnogi teuluoedd. Roedd yr ymholiad mwyaf cyffredin yn ymwneud â'r cyllid Cynnig Gofal Plant ar gyfer plant 3 i 4 oed, a oedd yn cyfrif am 39% o'r ymholiadau. Roedd 46% o'r ymholiadau yn ymwneud â gwybodaeth iechyd, lles a hamdden.

Data - Atal / cymorth cynnar

Cyfeirnod y metrig	Enw'r metrig	2024-25
C01.1	Nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd gan Wasanaethau Plant yn ystod y mis diwethaf: FFAL	1529

C01.22	Nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd gan Wasanaethau Plant yn ystod y mis diwethaf: Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd	1289
C04.1	Canran yr asesiadau plant newydd a gwblhawyd o fewn amserlenni statudol (cwblhau o fewn 42 diwrnod o atgyfeiriad i asesiad): FFAL	98% (144/1173)
C04.11	Rhestr aros Tîm o Amgylch y Teulu (TAT)	0
C04.12	Rhestr aros Gwasanaeth Rhianta'r Fro	53

THE FRIDAY FOCUS

Your Weekly Dewis Spotlight

Dec 2nd 2023 | Vol. 1, No. 3

Visit us at: Dewis.Wales

MYROUNDERS: BRINGING SOCIAL SPORT TO SOUTH

MyRounders, a mixed adult rounders league, has united men and women aged 16 and up in a shared passion for this inclusive and accessible sport.

Initially attracting a handful of players, MyRounders has quickly grown into a vibrant community, with participants discovering not only a fun new hobby but also making lifelong friendships. Many have found their first-ever team sport, while others have enjoyed the positive benefits of improved mental and physical health.

Families have embraced the game, with parents playing alongside or against their children, strengthening community ties and encouraging multi-generational involvement.



My Rounders Team photo

Expanding rapidly, MyRounders offers a social league across South Wales. So if you're interested in playing there's a team near you. Find yours and join a friendly and supportive group of people.

Whether you're taking it up again or playing for the first time, consider MyRounders.

Written by:
Dewis Cymru Cardiff & Vale

Follow us @ DewisCardiffVale on Facebook or DewisCymruCV on Instagram



What is Wellbeing?

Wellbeing is to do with your physical and mental health and your quality of life. It is about being happy, healthy, and comfortable with your life and what you do.



Parents Mental Health Infographic

Parenting can be both challenging and rewarding. Many parents/carers experience mental health challenges while raising children.

Creating a positive cycle



Engaging in self-care activities and improving your own mental health can in turn, provide better support and care to your children.

Joy in Parenthood

A survey by the Peanut app revealed that 91% of mothers find more joy in parenting than they anticipated.

91%

According to the CDC, nearly 4 out of 5 children aged 6 months to 5 years exhibit all four indicators of flourishing



This often mirrors the mental well-being of their parents.

Dewis.Wales

KICKSTART THE NEW YEAR WITH

Take a break from alcohol this month and discover the benefits of going dry. For many January offers the opportunity to go dry and enjoy the benefits associated.



Whether you're resetting after the holidays, focusing on health, or just curious about how you'll feel, Dry January is a great way to embrace positive change. Expect better sleep, clearer skin, and improved energy.

Ready to join the challenge? Share your goals, tips, or go-to alcohol-free drinks below, we're in this together.

 **Dewis Cymru**
Health and Wellbeing Directory

#DryJanuary
#HealthyHabits

Pa gynnydd wnaethom ni ar flaenoriaethau y llynedd?

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi:

- Cydweithio ar wneud gwaith paratoi ar gyfer system newydd yn lle System wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru.
- Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo modelau gofal cymunedol, ac i leihau unrhyw amser diangen sy'n cael ei dreulio yn yr ysbyty yn unol â Safon Eiddilwch Llywodraeth Cymru.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn:

- Gweithredu offer diogelu, gan sicrhau amddiffyniad effeithiol rhag camdriniaeth, esgeulustod a hunan-esgeulustod.
- Datblygu ein cynnig technoleg â chymorth/teleofal ymhellach
- Gwaith ar weithredu system cofnodion Gofal Cymdeithasol Mosaig.



Adran gwybodaeth ategol

- **Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol:**
- Yn ystod 2024/25 cyhoeddodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ddau adroddiad ynglŷn â hiliaeth. Roedd un yn canolbwyntio ar recriwtio a chadw. Mae nifer o argymhellion wedi'u gwneud yn yr adroddiadau sy'n gofyn am ymateb cyngor cyfan. Mae'r ddau adroddiad wedi cael eu hystyried gan dîm Arweinyddiaeth Strategol y Cyngor ac mae camau gweithredu wedi'u datblygu i gyflwyno'r argymhellion. Bydd y camau hyn yn cael eu monitro trwy ein teclyn olrhain Ail-ddylunio Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Mae dadansoddiad cychwynnol yn awgrymu bod y boblogaeth o'r mwyafrif byd-eang yn y gweithlu yn adlewyrchu patrwm poblogaeth Bro Morgannwg. Fodd bynnag, mae pobl o'r mwyafrif byd-eang yn cael eu cynrychioli llai mewn rolau rheoli ac felly mae camau gweithredu yn cael eu datblygu i'n cefnogi i ddod yn fwy cynrychioliadol o'r boblogaeth ar bob lefel. Mae hyn yn debygol o gymryd amser i gael ei gyflawni'n llawn.
- **Comisiynu:**



Fframwaith comisiynu gofal a chymorth cenedlaethol: cod ymarfer

Cyflwynwyd y fframwaith comisiynu gofal a chymorth cenedlaethol: cod ymarfer yn 2024 fel ychwanegiad at Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r cod ymarfer yn nodi gweledigaeth unedig ar gyfer egwyddorion a safonau cyson, moesegol ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau y maes comisiynu ledled Cymru.

Mae'r Cod yn sefydlu'r egwyddorion a'r safonau craidd hyn sydd wedi'u cynllunio er mwyn:

- lleihau cymhlethdod mewn systemau comisiynu
- hwyluso cysondeb cenedlaethol ac arferion comisiynu o ansawdd
- ail-gydbwyso comisiynu i ganolbwyntio ar ansawdd a chanlyniadau, gwerth a gwaith teg.

Mae Tîm Comisiynu Gwasanaethau Cymdeithasol Bro Morgannwg wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Comisiynu Cenedlaethol i gefnogi gweithredu'r cod yn

raddol a rhannu dysgu yn ystod y Cam Gweithredu Cenedlaethol. I gefnogi hyn, mae swyddogion wedi bod yn arbrofi gyda'r adnoddau o'r Pecyn Cymorth Cenedlaethol ac yn gweithio trwy'r Hunanasesiad Cenedlaethol. Mae swyddogion wedi bod yn defnyddio'r pecyn cymorth hunanasesu i adolygu'r gwaith o ddarparu Eich Dewis o fewn y gwasanaethau cymorth Cartref i oedolion. Mae hyn wedi cefnogi ymgysylltiad ehangach gan ddarparwyr gofal, pobl sy'n derbyn gofal a swyddogion sy'n comisiynu'r gofal i ddatblygu dull comisiynu gwell o ddarparu gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Bydd y gwaith hwn yn parhau trwy 2025/26 ac yn llywio gwedd contractau newydd.

Mae'r tîm Comisiynu wedi ymrwymo nid yn unig i weithredu'r Fframwaith yn lleol ond hefyd i gyfrannu at ddysgu drwy gymryd rhan mewn fforymau rhanbarthol a Chymru gyfan, gan helpu i lunio modelau newydd o gomisiynu moesegol ac sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Bydd y dysgu hwn yn llywio'r gwaith o ddatblygu contractau newydd.

Arolygiadau ac adolygiadau

- Roedd Gwasanaethau Cymdeithasol yn y Fro yn destun Gwerthusiad Perfformiad yn 2023. Roedd yr adroddiad yn gadarnhaol a datblygwyd cynllun gweithredu i ymateb i'r meysydd gwella a nodwyd. Cafodd pob un o'r [camau gweithredu](#) hyn eu cwblhau.
- Cafodd pob un o'n pedwar cartref gofal preswyl i Oedolion arolwg positif gan AGC a chawsant eu harolygu gan lechyd yr Amgylchedd a chynaliasant eu sgôr hylendid bwyd lefel 5.
- [Adolygiad Cyflym o Drefniadau Amddiffyn Plant](#) (AGC) - Cyhoeddwyd adroddiad terfynol yn 2024. Trafododd yr adolygiad i ba raddau y mae'r strwythurau a'r prosesau presennol yng Nghymru yn sicrhau bod enwau plant yn cael eu rhoi yn briodol ar y gofrestr amddiffyn plant a'u tynnu oddi arni. Datblygwyd cynllun gweithredu lleol a rhanbarthol trwy ein Bwrdd Diogelu Rhanbarthol mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed.
- [Cyd-arolygiad trefniadau amddiffyn plant; Adroddiad Trosolwg 2019-2024](#) Cynhaliwyd Arolygiad ar y Cyd o'r ymateb aml-asiantaeth i gam-drin ac esgeulustod plant ym mhob un o'r chwe bwrdd rhanbarthol rhwng 2019-2024. Cafodd ein partner rhanbarthol Caerdydd ac asiantaethau sydd ag ôl troed rhanbarthol eu harolygu yn 2024. Rydym wedi ystyried y canfyddiadau a'r argymhellion a lle bo angen mae ymateb rhanbarthol wedi'i gynnal.
- **Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Comisiynydd Pobl Hŷn i Atal Cam-drin ac Esgeulustod o Bobl hŷn** – Fe wnaethom gyfrannu at ddatblygu ac ymgynghori'r cynllun gweithredu cenedlaethol hwn. Gweithredu newidiadau i ymarfer yn rhan o'r cynllun gweithredu.
- [Ydyn ni'n gofalu am ein gofalwyr? - Ombwdsmon Cymru 2024](#), Ymchwiliad i weinyddu asesiadau anghenion gofalwyr yng Nghymru – cynhwyswyd 4 ALI yn yr ymchwiliad (nid yw Bro Morgannwg wedi'i chynnwys. Cyhoeddwyd canfyddiadau a gwnaed argymhellion yn genedlaethol. Mewn ymateb, mae Bro Morgannwg wedi gwneud newidiadau i feysydd ymarfer sy'n gysylltiedig ag asesiadau anghenion gofalwyr a dealltwriaeth gofalwyr am asesiadau; hawliau; dynodi person unigol i ganolbwyntio ar sgysiau Beth sy'n Bwysig a chanlyniadau. Mae hefyd wedi datblygu cynllun gweithredu rhanbarthol trwy ein bwrdd partneriaeth ranbarthol.

Canmolïaeth, cwynïon a sylwadau

• Canmolïaeth

Mae canmolïaeth yn chwarae rhan hanfodol o ran deall yr hyn yr ydym yn ei wneud yn dda a'n galluogi i rannu'r profiad hwn ar draws ehangder ein gwasanaethau. Mae hefyd yn fodd i ni ddathlu a chanmol ymdrechion ac ymroddiad ein staff.

Yn ystod 2022/23, derbyniodd y Gwasanaethau Cymdeithasol gyfanswm o **184** o ganmolïaethau. Roedd y canmolïaethau'n ymwneud ag amrywiaeth o wasanaethau a chymorth a dderbyniwyd gan ddinasyddion. Byddai'r canmolïaethau yn aml yn enwi staff penodol lle roeddent yn teimlo bod yr unigolyn wedi mynd y tu hwnt i'r hyn a ddisgwyliid ganddo.

Bydd deall profiad defnyddiwr y gwasanaeth yn well o ran yr hyn y maent yn ei werthfawrogi a'r hyn sydd bwysicaf iddynt, nid yn unig yn ein galluogi i greu darlun gwell o'r ffordd y mae ein gwasanaethau'n perfformio, ond bydd yn helpu i atgyfnerthu ymdeimlad o falchder yn ein gwaith.

Amlinellir isod ddadansoddiad o'r holl ganmolïaethau yn ôl Adran.

Gwasanaeth	Nifer y canmolïaethau
Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc	84
Gwasanaethau Oedolion	65
Rheoli Adnoddau a Diogelu	35
Nifer y Canmolïaethau	184

Isod ceir cipolwg ar rai o'r canmolïaethau a gawsom dros y flwyddyn ddiwethaf.

Rheoli Adnoddau a Diogelu - Tŷ Dewi Sant Roeddwn i eisïau dweud pa mor hapus ydw i gyda'r gofal y mae fy nhad yn ei dderbyn. Mae'r staff wedi bod yn anhygoel, ac mae'n golygu cymaint i weld pa mor dda mae'r gofal. Mae'n creu argraff fawr arnaf hefyd weld yr holl weithgareddau sy'n digwydd yn y cartref – rwy'n dilyn y dudalen Facebook yn rheolaidd ac wrth fy modd yn gweld y diweddariadau. Fel ffordd fach o roi yn ôl, byddwn wrth fy modd yn trefnu diwrnod gwirfoddoli trwy fy nghyflogwr, EE, sy'n cefnogi staff i gymryd rhan mewn prosiectau cymunedol. Hoffwn drefnu un o'r dyddïau hyn i gael ei gynnal yn Nhŷ Dewi Sant.

Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc-Cymorth i Deuluoedd 1 Dim ond i ddweud eich bod wedi rheoli'r teulu hwn a'r holl gymhlethdodau yn dda iawn ac mae'r holl blant yn ddiogel ac yn ffynnu oherwydd y gwaith rydych chi wedi'i wneud gyda nhw. Ar adegau bydd rhai teuluoedd bob amser yn aros yn ein meddylïau, ac mi dybiwn i, oherwydd y gofal, y sylw a'r gwaith di-baid rydych chi wedi'i gwblhau gyda'r holl blant, bydd hwn yn un o'r achosïon hynny.

Oedolion - Gwasanaeth Gofal Hirdymor *Dim ond i ddweud diolch enfawr am yr holl gymorth rydych chi wedi'i roi i mi a'r teulu i gyd yn ystod yr amser straenus iawn i bob un ohonom.* Rydych chi wedi gweithio'n ddiflino yn ystod y cyfnod hwn ac wedi ein diweddarau bob cam o'r ffordd. Rwyf hefyd yn sylweddoli pa mor anodd y mae'n rhaid bod hyn wedi bod i chi, gan nad ydych chi wedi bod yn y Fro ers yn hir iawn. Rwy'n gwybod bod gennym ffordd i fynd o hyd ond roeddwn i eisiau rhoi gwybod i chi faint rydyn ni fel teulu yn gwerthfawrogi eich gwaith caled.

- **Cwynion**

Trwy ein proses ymdrin â chwynion rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar gynnal dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o ran sut rydym yn delio â chwynion. Trwy ddilyn y dull hwn, mae'n ein galluogi i ddeall y materion yn llawn o safbwynt y dinesydd ac yn ein rhoi mewn sefyllfa gryfach i allu dod o hyd i benderfyniad dymunol, dysgu gwersi ac ystyried meysydd i'w gwella.

Mae'r Swyddog Cwynion yn mynd ati'n rhagweithiol i atal a chyfyngu materion cyn bod ganddynt y potensial i arwain at gŵyn. Weithiau, gall dinasyddion gysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol heb wybod a yw eu pryder yn cael ei ystyried yn gŵyn ffurfiol ai peidio. Mae cymorth a chymau gweithredu yn cael eu rhoi ar waith yn y cam cynnar hwn ac o ganlyniad, nid ydynt bob amser yn symud ymlaen i droi'n gŵyn. Mae'r rhain yn cael eu eu cofnodi fel cyswllt.

Yn ystod 2024-22025 fe gafodd cyfanswm o gysylltiadau **117** eu derbyn ym mhob pob un o'r tair adran o Wasanaethau Cymdeithasol. Dengys y data hwn bod siarad ag unigolyn sydd wedi mynegi pryder yn ffordd effeithiol a gwerthfawr o ddod i benderfyniad cynnar ac atal pryderon rhag gwaethygu'n gwynion.

O 31 Mawrth 2025, derbyniwyd cyfanswm o 77 o gwynion, a daeth **9** ohonynt i ben yn ystod y flwyddyn (naill ai heb gyswllt pellach neu ystyriwyd nad oedd modd ystyried y gŵyn drwy'r broses gwyno).

O'r 68 cwyn oedd yn weddill, cafodd 33 (**49%**) eu datrys o fewn yr amserlenni dynodedig, cafodd 25 (**36%**) eu datrys y tu allan i'r amserlenni ac roedd 10 (15%) yn parhau i fod ar agor ddiwedd y flwyddyn, felly'n parhau ymlaen i 2025/26.

Mae'n ofynnol i'r tîm cwynion a chanmoliaethau weithio o fewn amserlenni statudol ar gyfer cydnabod ac ymateb i gwynion. Mae'r amserlenni dynodedig fel isod:

- Ymateb i gwynion Cam 1, 10 diwrnod gwaith a 5 diwrnod gwaith arall i gadarnhau canlyniad y drafodaeth.
- Cwynion Cam 2, 25 diwrnod gwaith.

Mae'r Tîm Cwynion yn cynnal cyfarfodydd wythnosol gyda Rheolwr Gweithredol a Rheolwyr Tîm i gefnogi goruchwyliaeth ac ymateb amserol ac effeithiol i gwynion.

Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad llawn o'r holl gysylltiadau a chwynion a ddaeth i law yn 2025/26.

Adran Gwasanaeth	Cysylltiadau	Cwynion Cam 1	Cwynion Cam 2	Ombwdsmon	Ymatebwyd o fewn yr amserlen	Dirwyn y cwynion i ben	Cyfanswm Cwynion a Chysylltiadau a Dderbyniwyd
Gwasanaethau Oedolion	25	28	0	1	20	0	53
Rheoli Adnoddau a Diogelu	21	7	0	2	2	2	28
Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc	71	37	5	9	11	7	113
Cyfanswm	117	72	5	12	33	9	

1 - Sylwer bod cwynion yr Ombwdsmon yn cael eu cofnodi ar wahân i weddill y data cwynion.

Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o natur cwynion cam 1 a chysylltiadau fesul cyfadran.

Natur y gŵyn yn ôl Cyfadran	Plant i Wasanaethau Oedolion	Rheoli Adnoddau a Diogelu	Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc	Cyfanswm
Ansawdd y cyfathrebu	5	3	27	35
Staff anghwrtais	6	2	18	26
Yn anfodlon â'r amserlen	3	0	2	5
Hygyrchedd gwasanaethau	6	2	1	9
Ansawdd gwaeth y gwasanaeth	25	15	47	87
Gwybodaeth Anghywir wedi ei rhoi	0	1	2	3
Honiadau difrifol gan gynnwys: Ymosodiad, Lladrad, Esgeulustod, Cam-drin a Diogelu	2	1	6	9
Anhapus gyda chostau gwasanaethau/cymorth ariannol	7	5	1	13
Methiannau diogelu data	0	0	5	5
Gwahaniaethu	0	0	2	2

Gwersi a Ddysgwyd

Yn ystod 2024-2025, mae crynodeb o'r gwersi allweddol a ddysgwyd wedi'u nodi isod:

Cysylltiadau

Diffyg cyfathrebu amserol gan ymarferwyr.

- Bydd y Tîm Sicrhau Ansawdd yn cyflwyno sesiynau briffio ynghylch pwysigrwydd ymateb amserol a phwysigrwydd diweddarau ein dinasyddion ym mhob cam.

Cwynion Cam 1

Ansawdd y cyfathrebu

- Mae Bro Morgannwg yn cydnabod pwysigrwydd cyfathrebu â'n dinasyddion ac yn anelu at ddatblygu Siarter Cwsmeriaid. Fel rhan o'r ffrwd waith hon, mae'n anelu at alinio cyfathrebu a deall sut y gallwn wella profiadau cwsmeriaid gyda mewnbwn mewn prosiectau gwella parhaus.

Anhapus gyda chostau gwasanaethau/cymorth ariannol

- Rydym wedi gweld cynnydd amlwg yn nifer y cwynion sy'n ymwneud â chanlyniadau asesiadau ariannol. Mewn ymateb, rydym wedi cydweithio â'r meysydd gwasanaeth priodol i ddatblygu proses apeliadau clir a chadarn. Mae hyn wedi cynnwys alinio'r holl bolisiâu perthnasol i sicrhau mwy o gysondeb, tryloywder a thegwch yn y ffordd y mae apeliadau'n cael eu trin.

Cwynion Cam 2

Fel rhan o'n hymrwymiad i Sicrhau Ansawdd, rydym wedi datblygu Traciwr Gweithredu Argymhelliad Ymchwiliad Cam 2. Defnyddir yr offeryn hwn i fonitro a dilyn argymhellion a wneir gan ymchwilwyr allanol. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda rheolwyr y gwasanaeth perthnasol i adolygu'r argymhellion hyn, cytuno ar gynlluniau gweithredu, a gosod dyddiadau cwblhau clir. Mae'r broses hon yn sicrhau bod yr holl argymhellion sy'n anelu at wella ein gwasanaethau nid yn unig yn cael eu gweithredu ond hefyd eu olrhain yn iawn. Mae'n atgyfnerthu ein hymrwymiad i welliant ac atebolrwydd parhaus.

Argymhellion Cam 2

- Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth yn adolygu ei bolisiâu, gweithdrefnau a phrosesau lleol a gweithredol o fewn y cynllun. Mae hyn yn cynnwys diweddarau ein Polisi Taliadau Uniongyrchol a oedd yn gam gweithredu yn codi o gŵyn Cam 2.

Casgliad

Mae nifer o welliannau allweddol wedi'u gwneud i'r gwasanaeth eleni gan arwain at well ymateb a lefelau sicrwydd uwch. Yn ogystal, mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi cymorth i fwy o bobl nag erioed o'r blaen. Mae hyn yng nghyd-destun cynnydd parhaus yn y galw a'r costau. O ganlyniad i adnoddau ariannol cyfyngedig, nid yw'r twf hwn yn gynaliadwy a bydd angen newid sylweddol yn y gwasanaeth yn y dyfodol.